

"Rwyf ar fin dechrau ar fy Nghyfnod Ymsefydlu ond heb gofrestru eto gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. A yw hyn yn broblem?"

Rhaid eich bod wedi ennill Statws Athro Cymwysedig (SAC), a chofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg cyn dechrau gweithio fel athro a chyn dechrau ar eich Cyfnod Ymsefydlu.

Os na fyddwch chi wedi cofrestru gyda'r Cyngor, mae'n debygol y bydd hyn yn gohirio dechrau'ch Cyfnod Ymsefydlu ac yn golygu na fyddwch yn gallu ei gwblhau o fewn blwyddyn ysgol.

Nid yw hyn yn ddiwedd y byd – nid oes terfyn amser ar gyfer cwblhau'r Cyfnod Ymsefydlu. Ond mi allai effeithio ar eich cyflog yn eich ail flwyddyn o addysgu.

**Rhagor o wybodaeth am y Cyfnod Ymsefydlu:**

[www.ucac.cymru/CyfnodYmsefydlu.pdf](http://www.ucac.cymru/CyfnodYmsefydlu.pdf)

<http://www.cga.cymru/site/index.php/cy/sefydlu/gwybodaeth-gyffredinol>

**Rhagor o wybodaeth am Gyngor y Gweithlu Addysg:** [www.cga.cymru](http://www.cga.cymru)